# CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

**Clerc – Einir Wyn – *Clerk***
**Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT**
**Ffôn: (01758) 712434**
**E-bost:** caedu@dialstart.net

Ionawr 6ed, 2016

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod misol y Cyngor nos Fercher, Ionawr 13eg, 2016 yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

**RHAGLEN**

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Cadarnhau Cofnodion
4. Ceisiadau Cynllunio (rhestr trosodd)
5. Materion yn Codi o'r Cofnodion:
   i) 4a) Toiledau Cyhoeddus
   ii) 4b) Foel Gron a Thir Comin Mynytho – Tir Pen y Mynydd
   iii) 4c) Gwefan y Cyngor
   iv) 4ch) Glanhau Afon Soch
   v) 4d) Cheshire Lamont – 'Harbour Mews Development'/Llwybr Glan yr Afon/Wayleave
   vi) 4dd) Gohebiaeth – Un Llais Cymru
   vii) 4e) Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch
   viii) 4f) Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd
   ix) 4h) Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd
   x) 4i) David Furness – Derlwyn/*Ink Pot*
   xi) 7ai) Gohebiaeth – Un Llais Cymru (ULlC) – Ymgynghoriad Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft
6. Materion Priffyrdd – Biniau Halen; Ailwynebu Lôn Cilan; Tyllau yn Ffyrdd yr Ardal
7. Materion Hawliau Tramwy – Llwybr Bryn Ffynnon, Stád Sant Tudwal, Mynytho; Taith Gerdded Ddigidol; Llwybr Shanty, Pen Bennar; Llwybr 17 a 18 – Mynydd Cilan; Ffens ger Isfryn, Mynytho; Torri'r Llwybrau; Gorchymyn Cilffordd Cyhoeddus Rhif 38 – Gwaharddiad Defnydd Dros Dro (Ail Rybudd)
8. Gohebiaeth:
   a) Un Llais Cymru (ULlC) – Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol; Ymgynghoriad Cyhoeddus Fframwaith Strategol Olynol Mwy na Geiriau...ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol; Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
   b) Llywodraeth Cymru – Ymgynghoriadau a) Deddf Llywodraeth Leol 2000 – Rhan III, Ymddygiad Aelodau Leol – Diwygio Is-ddeddfwriaeth a b)

Newidiadau Arfaethedig i Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg

c) Adran Cynllunio – Polisi Dymchwel/Ailadeiladu Tai

ch) Swyddfa'r Post – Penderfyniad Symud i Adeilad Newydd a Moderneiddio'r Gangen

d) Ysgol Sarn Bach – Llythyr Diolch

dd) Adran Trysorydd – Praesept 2016 – 2017

e) Economi a Chymuned – Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig – Gwobrau Traeth 2016

f) Cymdeithas Clercod Llywodraeth Leol (SLCC) – Comisiwn Rhyddid Gwybodaeth

9. Dyfarniadau Cynllunio
10. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
11. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Chwefror 10fed, 2016

Yn gywir,

*Einir Wyn*

**EINIR WYN**
**Clerc**

**Amg.**

## CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS IONAWR

| RHIF | RHIF Y CAIS | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| 1 | C15/1171/39/LL | Newid defnydd ac addasiadau i ran o siediau storio presennol er creu caffi tymhorol (Mawrth 1af i Hydref 31ain), codi tair sied storio ar gyfer sgis jet, gosod canllaw ar ben rhan o'r wal amddiffyn o'r môr presennol a gosod pwtres concrid ar gornel y llithrfa – **Mickey's Boatyard, Machroes** |
| 2 | C15/1257/39/LL | Adeiladu dau dŷ deulawr – **Tir ger Cesail y Coed, Llanengan** |
| 3 | C15/1295/39/TR | Ailadeiladu llinell drydan uwchddaearol â dargludyddion ychwanegol – **Aber-soch i Gae'r Eglwys, Aber-soch** |
| 4 | C15/1328/39/AM | Adnewyddu caniatâd amlinellol C13/0198/39/AM am dŷ annedd a ffordd fynediad newydd – **Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch** |
| 5 | C15/1345/39/CC | Gwaith tocio coeden – **Ysgol Gynradd Aber-soch** |
| 6 | C15/1355/39/LL | Estyniad ffenestr gromen i'r cefn – **Maesteg, Maes Gwydryn, Aber-soch** |